



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

FFOCWS AR Y DYFODOL



Llesiant yn Ein Cymuned 2017 - 2022

2021/22 - Fersiwn 5



Cynnwys

Rhan 1 - Cyflwyniad.....	3
1.1 Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.....	3
1.2 Ffocws ar y Dyfodol - Crynodeb.....	6
1.3 Diben ein Cynllun Ffocws ar y Dyfodol	7
1.4 Cynnwys ein Cymunedau.....	9
Adran 2 - Ffocws ar y Dyfodol - Ein Cynllun	11
2.1 Ein Gweledigaeth a Rennir	11
2.2 Ein Themâu a'n Hamcanion Llesiant – Crynodeb.....	12
2.3 Ffocws ar y Dyfodol – Ein taith hyd yn hyn	13
2.4 Ein Hamcanion Llesiant – Y manylion	16
2.5 Cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol.....	33
Adran 3 - Cyflawni'r Cynllun	34
3.1 Adfer → Trawsnewid → Gwella – Ein Cynllun 2020 i 2025.....	34
3.2 Ein Ffyrdd o Weithio	36
3.3 Ein Trefniadau Llywodraethu a Chefnogi'r Cynllun.....	42
Adran 4 – Monitro'r Cynllun	52
4.1 Monitro Ein Perfformiad.....	52
4.2 Craffu.....	53
4.3 Yr hyn a ddywedodd y Rheoleiddwyr	54
4.4 4.4 Gwaith partneriaeth	56
Adran 5 – Geirfa	57
Adran 6 – Cymryd Rhan.....	59
Atodiadau	60

Rhan 1 - Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr



Y Cynghorydd Lisa Mytton

Arweinydd y Cyngor



Ellis Cooper

Prif Weithredwr Dros Dro

Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rydym yn falch o gyflwyno ein cynllun llesiant corfforaethol diwygiedig "Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned".

Mae'n debygol mai hwn fydd y cynllun pwysicaf y mae'r Cyngor hwn wedi'i ddatblygu wrth i ni wella o bandemig y coronafeirws a pharhau ar ein taith o drawsnewid a gwella.

Yn ein cynllun, rydym yn nodi'r hyn a ddisgwyliwn gan Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor i gyflawni ein hamcanion llesiant a'n blaenoriaethau corfforaethol. Bydd y cynllun hwn yn rhoi ffocws i ni ddarparu ein gwasanaethau yn gynaliadwy ac yn gyfartal i ddiwallu anghenion ein trigolion a chefnogi'r cynllun rhanbarthol ehangach.

Mae gennym 4 amcan llesiant, pob un â chanlyniad sylfaenol, gallwch gael rhagor o wybodaeth yn [Adran 2](#) o'r cynllun hwn. Mae ein hamcanion wedi'u hintegreiddio â chynllun rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - [Cynllun Llesiant - Ein Cwm Taf](#).



Dechrau Gorau



Bywyd Gwaith



**Llesiant
Amgylcheddol**



Byw yn Dda

Mae 2020 a dechrau 2021 wedi bod yn eithriadol o heriol i ni i gyd. Fel Cyngor, rydym wedi bod yn darparu gwasanaethau i'n trigolion, tra'n ymateb yn gyntaf i lifogydd mawr ac yna pandemig byd-eang. Mae hyn wedi galw am ymdrech ar y cyd gan Aelodau Etholedig, Swyddogion a Phartneriaid. Mae wedi dangos sut y gallwn gydweithio i oresgyn heriau mawr; rhywbeth rydym am adeiladu arno fel rhan o'r cynllun hwn yn y ffordd rydym yn gweithio yn y dyfodol.

Mae'r ffordd yr ymatebwyd i'r heriau hyn hefyd wedi rhoi cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol neu'n wir wneud pethau gwahanol. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'n cymunedau i'w cynnwys yn y ffordd rydym yn symud ymlaen. Fel Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, rydym am barhau i feithrin cysylltiadau rhwng pobl a grymuso cymunedau i wella llesiant.

Ar ôl pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020, cymerwyd cam rhagweithiol gennym drwy ofyn i Lywodraeth Cymru ein cefnogi yn y cyfnod heriol hwn. Penododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Fwrdd Gwella a Sicrwydd i gynnal ymarfer asesu cyflym. Er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau'r gwaith hwn, rydym wedi datblygu ein '[Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella](#)'. Mae hyn yn mynd i'r afael â'n risgiau uniongyrchol ond hefyd y tymor hwy. Rydym wedi gweithio, gyda'r cymorth a ddarperir, i nodi 3 maes blaenoriaeth i'n helpu i gyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau llesiant yn well. Credwn y bydd hyn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn 'iawn, ond felly beth yn union?' - Rydym yn ffocysu ar wella canlyniadau i'n trigolion ac mae hyn yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae gweithdai Aelodau Etholedig, Aelodau Craffu a Swyddogion wedi ein galluogi i gytuno ar y meysydd hyn i'w gwella a ffyrdd o gefnogi'r newidiadau hyn ac yn unol â disgywiliadau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Mae'r rhain yn gwella ein safonau addysg, gan gynyddu ein gwytnwch ym maes gofal cymdeithasol a chefnogi adferiad economaidd.




Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd fel Aelodau Etholedig a Swyddogion i fireinio ein cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i helpu ein hadferiad o bandemig y coronaferws a'n taith drawsnewid a gwella. Wrth wneud hyn rydym hefyd wedi ffocysu ar ein gwasanaethau cymorth a sut y gall yr adnodd hwn ein helpu i drawsnewid. Bydd Cyngorwyr Etholedig yn parhau i arwain datblygiad cymunedol trwy ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd. Bydd pawb sy'n rhan o hyn yn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n profiadau ein hunain i hyrwyddo cyfleoedd drwy gynnwys y gymuned i gyflawni newidiadau cadarnhaol a pharhaol.

Rhaid i ni sicrhau bod y penderfyniadau a gymerwn yn galluogi gwelliannau cynaliadwy a chefnogi llesiant y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful heddiw ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio'n well [drwy'r egwyddor datbygu cynaliadwy](#) fel y nodir fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Fel sefydliad, rydym yn ymwybodol iawn o effaith llymder ar bobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn y Fwrdeistref Sirol. Yn y cynllun hwn, fe welwch sut rydym wedi adeiladu ar y llynedd wrth nodi a ffocysu'r gwasanaethau sy'n cyfrannu at [fynd i'r afael â thlodi](#) o fewn ein cymunedau; sy'n flaenoriaeth i bob un ohonom.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r cynllun hwn a'r adferiad, y trawsnewid a'r gwelliant a nodir isod, rhaid i ni hefyd ffocysu ar sut rydym yn cefnogi cyflawni ac yn monitro ein perfformiad. Bydd gwella ein llywodraethu yn ffocysu ar y cyfnod nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn gwella'n effeithlon ac yn effeithiol. Bydd ein gwaith craffu, fel rhan o'n pwyllgorau llywodraethu mewnol a ffurfiol, yn chwarae rhan fawr yn ein taith drawsnewid a gwella. Mae ein perfformiad staff a'u datblygiad hefyd yn bwysig. Felly, yn ddiweddar, fel rhan o'n cynllun ariannol tymor canolig, rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn datblygu staff, prentisiaethau a chapasiti ychwanegol mewn meysydd risg uchel o'r Cyngor.



Er ei fod yn heriol, mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i ni wrth i ni ail-lunio'r sefydliad i ddiwallu anghenion ein trigolion nawr ac i mewn i'r dyfodol.

Lisa Mytton
Arweinydd y Cyngor

Ellis Cooper
Prif Weithredwr Dros Dro

1.3 Diben ein Cynllun Ffocws ar y Dyfodol

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly, rhaid sicrhau wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent eu cael ar y bobl sy'n byw eu bywydau ym Merthyr Tudful yn awr ac yn y dyfodol. Nodir y rhain yn y [5 ffordd o weithio](#) (egwyddor datblygu cynaliadwy).

Mae'r Ddeddf yn golygu bod gennym Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru. Rôl y Comisiynydd yw gweithredu fel gwarcheidwad er budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a chefnogi gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r saith Nod Llesiant cenedlaethol.

Yn ogystal â dymuno eich hysbysu a'ch cynnwys yn ein cynlluniau, mae gennym ddyletswydd o dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i gyhoeddi ein hamcanion llesiant a'n datganiad ategol (Ein Datganiad Llesiant) ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, sy'n dangos sut rydym yn cyfrannu at y 7 nod llesiant cenedlaethol. Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym hefyd yn cyhoeddi ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella.


Y Saith Nod Llesiant

Mae'r Ddeddf yn nodi am y tro cyntaf yn y gyfraith, bod gyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un pwrpas. Mae'r Ddeddf yn rhoi 7 nod llesiant cenedlaethol ar waith sy'n cynrychioli'r weledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru ac yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r gyrff cyhoeddus rhestredig weithio i gyflawni'r holl nodau ac nid un neu ddau'n unig.

Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor drefniadol ganolog wrth osod amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf yn cadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei chymhwyso wrth wneud penderfyniadau a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.




"rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd."

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Sophie Howe

Y Pum Ffordd o Weithio

Yn y Ddeddf, caiff datblygu cynaliadwy ei ddangos gan y pum ffordd o weithio. Dyma ffyrdd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu er mwyn dangos tystiolaeth o sut y maent wedi defnyddio datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Mae dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn cynnig cyfle enfawr i wneud newid cadarnhaol a pharhaol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae manylion am y modd yr ydym wedi newid ein ffyrdd o weithio yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy [isod yn y ddogfen hon](#).




Ein Cynllun Ffocws ar y Dyfodol

Yn ein Datganiad Llesiant, rydym yn nodi cwmpas pob Amcan Llesiant ac yn amlinellu pam yr ydym o'r farn y bydd cwrdd â'r Amcan Llesiant yn cynyddu ein cyfraniad at gyflawni'r 7 Nod Llesiant cenedlaethol.

Yn y cynllun hwn, rydym yn nodi sut yr ydym yn bwriadu cyflawni ein hamcanion llesiant. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau cysylltiedig, manylion cynlluniau a strategaethau allweddol a sut yr ariennir y cynllun.

Rydym yn adolygu ein cynllun bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau, y cynlluniau a'r strategaethau allweddol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyd-fynd yn glir â'n hamcanion llesiant. Mae hyn yn dogfennu'r newidiadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad hwn a'r rhesymeg dros y newidiadau. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cyhoeddi [Adroddiad Perfformiad Blynnyddol](#), a fydd yn gwerthuso'r cynnydd a wnaethom.

Mae'r diagram gyferbyn yn enghraifft syml o ddychmygu sut mae ein cynllun yn eistedd mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol ar draws Cwm Taf.



1.4 Cynnwys ein Cymunedau

Mae gan Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful boblogaeth o tua 60,000; hynny yw bod mwy o bobl fesul cilomedr sgwâr na sydd o ran Cymru gyfan. Mae crynodeb byr o'r Fwrdeistref Sirol, o'i gymharu â gweddill Cymru, yn dangos bod gan Ferthyr Tudful y canlynol:

- 4^{ydd} canran uchaf y bobl o dan 16 oed yng Nghymru;
- 3^{ydd} canran isaf y bobl dros 65 oed yng Nghymru;
- 2^{il} canran uchaf y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru;
- 3^{ydd} dreth gyngor band D gyfartalog uchaf yng Nghymru.

(Ffynhonnell: [Fy Nghynqor Lleol](#); Chwefror 2021)

Mae 11 Adran Etholiadol (wardiau) ym Merthyr Tudful, a gynrychiolir gan 33 o Gyngorwyr Ward. Mae ein Cyngorwyr yn chwarae rôl arweiniol fel llysgenhadon cymunedol, gan helpu i ddarparu gwybodaeth gymunedol a helpu i rymuso pobl leol i wella eu cymunedau trwy ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth ymarferol.


Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT), sy'n awdurdod unedol, yn cyflogi 1,237 o staff corfforaethol a 1,133 o staff mewn ysgolion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am lefel fwy 'gweithredol' o gyfranogiad cymunedol er mwyn cyflawni canlyniadau. Fel Cyngor, mae hyn yn golygu bod angen i ni gynnwys ein cymunedau yn y gwaith o gynllunio a ffurfio gwasanaethau, ynghyd â chynnwys cymunedau i ddeall sut yr effeithir arnynt.

Beth ddywedodd ein hasesiad poblogaeth Cwm Taf a'n hasesiad llesiant Cwm Taf wrthym?

Mae Cwm Taf yn cynnwys 2 ardal awdurdod lleol, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Cynhyrchwyd asesiad llesiant Cwm Taf ac asesiad poblogaeth Cwm Taf ym mis Mawrth 2017, gan osod sylfaen ein cynlluniau lleol a rhanbarthol. Rydym wedi parhau i adolygu ein hamcanion er mwyn sicrhau ein bod yn ffocysu ar ganlyniadau'r asesiadau hyn.

Cafodd [Asesiad Llesiant Cwm Taf](#) ei gynnal drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) er mwyn cydweithio i wella gwasanaethau a chymunedau ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae gan gymunedau eu hunaniaeth eu hunain ac mae'r data'n dangos demograffeg y boblogaeth a thueddiadau tebygol e.e. cynnydd mawr a ragwelir yn yr ystod oedran dros 85 oed, gan newid y ffordd rydym yn ystyried gofal cymdeithasol yn y tymor hir. Roedd y gwaith hwn yn llywio Cynllun Llesiant y BGC a'n themâu a'n Hamcanion Llesiant.



Cafodd [Asesiad Poblogaeth Cwm Taf](#) ei gynnal yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ystyried 4 colofn y Ddeddf (sef Llesiant, Pobl, Partneriaeth ac Atal) a 3 maes allweddol sef: 'Pa lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen?'; 'Ble mae'r bylchau a sut i'w llenwi?'; 'Sut mae angen i wasanaethau newid er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r lefel honno o ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol?'. Daeth 6 thema gyffredinol i'r casgliad canlynol: Defnyddio ein Data'n fwy effeithiol; Gwybodaeth – Darganfod mwy am wasanaethau cymorth; Cysylltiadau; Gweithio gyda'n gilydd; Atal problemau cyn iddynt ddechrau, neu waethygu; Ei wneud yn bersonol – cael eich clywed a'ch deall. Mae hyn yn llywio sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a CBSMT yn gweithio. Mae hyn wedi llywio amcanion rhanbarthol a lleol, gan gynnwys themâu allweddol yn ein [Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella](#).

Datblygu Gweithredu Cymunedol

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i'n cyngorwyr fel y gallant gyflawni gwaith yn y gymuned lle mae ei angen. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd lle bydd cyngorwyr yn cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned. Fe welwch enghreifftiau o waith grŵp cymunedol sydd wedi digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol drwy ymweld â'n tudalen we ['Cylchgrawn Cyswllt'](#).





Mae nifer o weithgareddau cydweithredol cymunedol eisoes yn cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygiad parhaus gweithgareddau o fewn Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa;
- Bydd ein strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau yn cael ei lansio ym mis Medi 2021, lle byddwn yn ymgysylltu â'n cymunedau;
- Rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau ynglŷn â'n gweledigaeth economaidd 15 mlynedd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, rydym yn arbennig o awyddus i gynnwys busnesau;
- Bydd ein prosiectau sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag anghenion diweithdra a hyfforddiant yn parhau, i gefnogi ein cymunedau.

2.2 Ein Themâu a'n Hamcanion Llesiant – Crynodeb

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithio'n well gyda'i gilydd a chymunedau drwy gymryd rhan a thrwy weithredu ar y cyd. Mae hyn yn gynyddol bwysig i ateb yr heriau a wynebwn.

Er mwyn gosod ein hamcanion llesiant, fe wnaethom gyfrannu at ddatblygu asesiad anghenion ar y cyd ar draws Cwm Taf. Gallwch ddarllen mwy am yr asesiadau llesiant ar y wefan '[Ein Cwm Taf](#)'. Gwnaed hyn i lywio datblygiad y Datganiad Llesiant ac wedi hynny arweiniodd at ddatblygu amcanion llesiant y Cyngor. Mae'r pedair thema a'r amcanion a gyflwynir yn fersiwn 2020/2021 o'r cynllun yn aros yr un fath ar gyfer 2021/2022.

Thema Llesiant	Amcan	Canlyniad Sylfaenol
 Dechrau Gorau	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.	Gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc
 Bywyd Gwaith	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel sy'n datblygu sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.	Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.
 Llesiant Amgylcheddol	Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad.	Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau drwy gyfrwng yr hierarchaeth wastraff
 Byw yn Dda	Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.	Sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel o fewn eu cymunedau.

Yn y cynllun hwn, rydym yn amlinellu'r camau a ddilynwn i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n cyfraniad at yr Amcanion Llesiant. Bydd y cynllun hwn yn ffocysu ar yr hyn a wneir i gyflawni'r Amcanion Llesiant, gan gynnwys blaenoriaethau allweddol a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig.

Ers cyhoeddi fersiwn 4 (2020-21) o'n cynllun, rydym wedi datblygu ymhellach ein 'Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella 2020 - 2025'. Yma rydym wedi nodi meysydd y mae angen i ni eu gwella er mwyn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein trigolion nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi blaenoriaethu meysydd i gyflawni ein hamcanion llesiant yn well mewn modd cynaliadwy a theg. Mae'r adran '[Adfer → Trawsnewid → Gwella – Ein Cynllun 2020 i 2025](#)' isod yn rhoi mwy o fanylion am y cynllun.

Rydym wedi gweithio gyda thimau o bob rhan o'r Cyngor er mwyn ailffocysu ein strategaethau. Rydym wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn gwneud pethau gwahanol neu'n gwneud pethau'n wahanol. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein 'Strategaeth ar Dudalen' hawdd ei deall ar gyfer pob amcan llesiant i'n helpu i

gyflawni ein canlyniadau. Caiff y rhain eu hystyried gan bob tîm wrth iddynt gwblhau'r broses hunanwerthuso gorfforaethol: y prif gyfrwng a ddefnyddir i ystyried a ydym yn gwneud gwahaniaeth ai peidio.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydym yn parhau i ddysgu gwersi a chryfhau'r ddarpariaeth ymhellach yn unol â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Mae nifer o enghreifftiau o sut y byddwn yn gwneud hyn:

- gweithdai pwyllgor craffu integredig i ffocysu ar agweddau neu bynciau allweddol;
- gweithgorau cydweithredol i archwilio cyfleoedd ar gyfer cynllunio ar y cyd, a darparu gwasanaethau gyda phartneriaid mewnol ac allanol; a
- sesiynau her gritigol ar draws gwasanaethau i 'brofi' ac archwilio syniadau, canfyddiadau allweddol gweithgareddau ac i rannu gwersi a ddysgwyd yn fwy eang.

Mae ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella hefyd yn nodi ffyrdd y gall ein gwasanaethau cymorth helpu i gyflawni ein blaenoriaethau. Ni allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain ac rydym wedi nodi ein partneriaid allweddol yr ydym yn cydweithio â hwy er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau corfforaethol.

Er mwyn datblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau sy'n digwydd, ac i alluogi staff a phartneriaid i nodi sut y maent yn gweithio yn y darlun ehangach, mae gennym ddogfen 'Gweledigaeth a Rennir' sy'n cysylltu nid yn unig â blaenoriaethau'r Cyngor, ond hefyd â rhai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a blaenoriaethau'r Cabinet.

2.3 Ffocws ar y Dyfodol – Ein taith hyd yn hyn

Rydym wedi darparu crynodeb cam wrth gam isod o'n taith hyd yma wrth ddarparu ein gwasanaethau yn dilyn sefydlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym wedi gallu edrych ar yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud. Byddwch yn sylwi drwy fersiynau blaenorol o'n Cynllun Ffocws ar y Dyfodol (y cyfeirir ato weithiau fel ein Cynllun Corfforaethol) ac Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, ein bod wedi gallu ffocysu mwy ar ein hamcanion llesiant a'n canlyniadau. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach yn 2020/21 lle rydym wedi nodi meysydd allweddol i'w gwella fel rhan o'n Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella.

2015-2016



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.



Cynhelir Asesiad Poblogaeth ar y cyd i nodi anghenion cymunedol ar draws Cwm Taf

2016-2017



Roedd Cynghorwyr a swyddogion wedi cydweithio i adeiladu'r Cynllun Llesiant Corfforaethol



Y Cynllun Llesiant Corfforaethol – Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned yn derbyn cymeradwyaeth y Cyngor



2017-2018



Mae'r Cyngor yn dechrau cyflwyno gweithgareddau/gwasanaethau i wneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol a'i



Drwy gydol y flwyddyn gyflenwi gyntaf, adolygodd pwyllgorau craffu'r Cyngor yn gyson y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun, gan ddarparu her ac atborth.

2018-2019



Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynhyrchu ei Gynllun Llesiant cyntaf 'Ein Cwm Taf'



Gweithio'n well gyda'n gilydd

Gydag amcanion mwy integredig a gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd yn ystod Blwyddyn 1, mae'r Cyngor yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o'u heffaith ar ei ganlyniadau.



Ar ddiwedd Blwyddyn 1, gwnaethom adolygu ac ailffocysu; mae'r 9 amcan a osodwyd o fewn y Cynllun i ddechrau wedi lleihau i 4 yn barod ar gyfer Blwyddyn 2



Craffu

Mae swyddogaeth graffu'r Cyngor yn adolygu ac yn craffu ar yr Adroddiad Craffu Blyneddol - adroddiad sy'n edrych yn ôl ar y perfformiad a wnaed a'r effaith a gafwyd drwy'r flwyddyn gyntaf o gyflawni'r Ffocws



Ar ddiwedd Blwyddyn 2, aethom ati i adolygu a newid pwyslais y Cynllun; bellach mae'n dangos ein dull gweithredu sydd wedi newid gan ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio e.e. darparu gwasanaethau'n fwy integredig;



Ail-lansio proses hunan-werthuso corfforaethol i gefnogi adolygu statws, cydnabod arfer da; a nodi meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau ar gyfer gwella



Yn dilyn ymweliad arholiad, mae Swyddfa Archwilio Cymru (nawr yn cael ei alw'n Archwilio Cymru) wedi llunio adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o'r 5 ffordd o weithio. Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd da ac yn cynnig camau



Archwilio Cyfleoedd

Mae strategaeth ddrafft y Cyngor ar gyfer Trechu Tlodi wrthi'n cael ei datblygu ac mae swyddogion yn archwilio'r cyfleoedd i integreiddio hyn i'r Cynllun Corfforaethol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd



2020-21

Rhestr Beth i Wneud

- Parhau i hunan-werthuso
- Archwilio trechu tlodi ymhellach
- Adnewyddu/ailffocysu/adolygu
- Datblygu dulliau pum ffordd o
- Adolygu a gwella llywodraethu



Symud i 2021-22


- Parhau i ymateb i bandemig y coronafeirws a phontio i'r cyfnod adfer
- Cyflawni ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (gan ffocysu ar ein blaenoriaethau ar gyfer gwella)
- Gweithio gyda'n Bwrdd Gwella a Sicrwydd drwy barhau i ffocysu ar ein sefyllfa lywodraethu, perfformiad ac ariannol
- Sicrhau ein bod yn parhau i ffocysu ar fynd i'r afael â thlodi
- Parhau i hunanarfarnu a pharatoi ar gyfer gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau
- Sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r 7 nod cenedlaethol
- Cyflawni newidiadau eraill i ddeddfwriaeth, er enghraifft y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd a osodir ar y Cyngor



Ffocws ar ... Drechu Tlodi

Yn ein hadroddiad Ffocws ar y Dyfodol y llynedd, gwnaethom gyflwyno ffocws trawsbynciol ar fynd i'r afael â thlodi. Dyma un o brif achosion llawer o faterion sy'n ein hwynebu nawr ac i'r dyfodol, yn enwedig yn dilyn pandemig y coronafeirws. Nodwyd y cylch tlodi gennym sy'n dangos sut rydym yn gweithio ar draws ein hamcanion da a all effeithio'n gadarnhaol ar y cylch. O'r herwydd, mae angen i ni integreiddio ein strategaethau a chydweithio i fynd i'r afael â'r mater ofnadwy hwn. Rydym yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio i fynd i'r afael â thlodi, ac wrth wneud hynny, ein helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r 7 nod cenedlaethol yn well.


Mae sawl adroddiad wedi amlinellu sut mae effeithiau pandemig y coronafeirws yn gallu cael effaith andwyol ar gymunedau sydd eisoes yn profi lefelau uchel o amddifadedd. Cynhyrchodd y 'Ganolfan Trefi' eu hadroddiad o'r enw 'Effaith pandemig COVID-19 ar ein trefi a'n dinasoedd' ym mis Ebrill 2020. Yn yr adroddiad hwn, nodwyd bod trefi sy'n dibynnu'n fawr ar fanwerthu a thafarndai a bwytai a chyn-drefi diwydiannol yn cael eu heffeithio'n sylweddol. Defnyddiwyd yr adroddiad hwn, ac adroddiadau tebyg eraill, wrth ddatblygu ein blaenoriaethau yn ein Cynllun ATG i ddeall yn well sut i flaenoriaethu ein trawsnewid (felly'r flaenoriaeth 'Adfer Economaidd' sy'n cael ei datblygu). O'r herwydd, bydd Adferiad Economaidd yn chwarae rhan fawr wrth fynd i'r afael â thlodi.



Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd yn ein galluogi i adnewyddu ein ffocws ar sut rydym yn asesu effeithiau ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn galluogi tegwch wrth wneud penderfyniadau. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â thlodi er mwyn lleihau'r effaith ar ein cymunedau. Ar hyn o bryd rydym yn darparu lluo o wasanaethau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n helpu i wneud hyn.

Y llynedd, gwnaethom gynhyrchu rhestr o 8 o'r prif gyfranwyr i drechu tlodi a sut y maent yn ein helpu i gyfrannu at y 7 nod cenedlaethol. Rydym yn parhau â'r gwaith hwn, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud eleni. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol (APB) a gynhyrchwyd yn gynharach eleni, a byddwn yn cynnwys mwy yn APB y flwyddyn nesaf.

Wrth gyflawni'r 8 rhaglen hyn byddwn yn mynd i'r afael â thlodi ac yn cyfrannu at y Cymru yr ydym yn dymuno, yn benodol i'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.



2.4 Ein Hamcanion Llesiant – Y manylion

Fel y nodwyd uchod, rydym yn gosod ein themâu llesiant drwy ddatblygu'r asesiad o anghenion ar y cyd ar draws Cwm Taf a'r canfyddiadau sy'n deilio ohono. Mae hyn hefyd yn llywio'r Datganiad Llesiant a datblygiad amcanion llesiant y Cyngor.

Mae'r tablau yn yr adrannau isod yn amlinellu'r gwasanaethau o bob rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'n partneriaid sy'n cydweithredu i gyflawni'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau corfforaethol. Crynhoir y manylion isod yn ein dogfennau ['Crynodeb o'r Cynllun Corfforaethol'](#) a'r ['Gweledigaeth a Rennir'](#). Er mwyn ffocysu ar ein trawsnewid, rydym hefyd wedi cynnwys ein blaenoriaethau gwella eleni.

Manylir ar themâu ac amcanion llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful isod:



Dechrau Gorau



Aelod Portffolio
Y Cynghorydd Lisa
Mytton

Amcan	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.
Canlyniad Sylfaenol	Gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc
Swyddog Arweiniol	Prif Swyddog - Dysgu
Ffocws Gwella	Gwella ein Safonau Addysg

Mae llesiant ein plant a'n pobl ifanc o'r pwys mwyaf, hyd yn oed yn fwy felly wrth i ni symud allan o bandemig y coronafeirws. Pan fydd gan blant a phobl ifanc well iechyd a llesiant maent yn fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu ac yn y pen draw sicrhau safonau academaidd gwell. Mae codi safonau cyrhaeddiad yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ond mae'n rhaid gosod hyn yng nghyd-destun yr adfer ar ôl y pandemig a gweithio mewn partneriaeth. O'r cyfle cyntaf posibl, rydym yn cydnabod yr angen i weithio gyda theuluoedd i sicrhau bod ein plant yn cael y cymorth gorau i fod â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu nodau a'u potensial academaidd.

Isod ceir enghreifftiau o sut mae adrannau CBSMT yn cyfrannu at yr amcan llesiant hwn.

Codi Safonau	Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Rhaglenni cyflogadwyedd
Gwella Ysgolion	Gwasanaethau Ieuencid	Adran y Parciau
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Cynhwysiant a Llesiant	Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal
Blynyddoedd Cynnar	Cynllunio Ysgolion ac Adnoddau Cymorth	Tîm Datblygu Chwaraeon, Treftadaeth a Diwylliant
Tîm Diogelu	Tîm Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant	Tîm Rhianta
Adran Wastraff	Adran Ystadau	Cymorth Ymyrraeth Luosog / Tîm o Amgylch y Teulu
Trwyddedu / Cludiant i'r ysgol	Adnoddau Dynol	Hawliau Tramwy / Teithio Llesol
Cydraddoldeb	Diogelwch ar y Ffyrdd a Rheoli Traffig	Y Gymraeg

Disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol	Adran Gerddoriaeth	TGCh / TGCh Ysgolion
--	--------------------	----------------------

Mae partneriaid eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant hwn, rhestrir y rhain isod.

Penaethiaid ac athrawon	Llywodraethwyr Ysgol	Consortium Canolbarth y De
ESTYN	Awdurdodau Lleol Eraill	Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	Coleg Merthyr Tudful	Llywodraeth Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub	Ymgynghorwyr addysgol	Gweithgareddau awyr agored (e.e. Rock UK)
Ymddiriedolaeth Hamdden (gan gynnwys gwasanaethau llyfrgell)	Prifysgolion	Dug Caeredin
Cyrff arholi (CBAC)		

Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chynaliadwy i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae'r dull hwn yn bwysig i bob plentyn, hyd yn oed yn fwy felly oherwydd y pandemig coronafeirws, a bydd o fudd arbennig i blant sy'n wynebu anfantais neu sydd â risg uchel o ganlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae addysg yn un o ragfynegwyr cliraf o ran canlyniadau bywyd, megis cyflogaeth, incwm a statws cymdeithasol, ac mae'n rhagfynegi agweddau a llesiant. Mae'r amcan yn integreiddio'r daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg ysgol orfodol, ac ôl-16 gyda'r nod o roi sgiliau a phriodolddau i blant a phobl ifanc i'w helpu gwella eu bywydau eu hunain.

Y canlyniadau allweddol y mae Dechrau Gorau am eu cyflawni yw

- Mae plant yn byw mewn amgylchedd cartrefol ac ysgogol;
- Mae plant yn cael mynediad i addysg cyn ysgol ac oedran ysgol o ansawdd uchel;
- Gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc; a
- Bod plant a phobl ifanc yn mwynhau iechyd a llesiant emosiynol da.

Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn drwy ein strategaeth allweddol Codi Dyheadau Codi Safonau (CDCS) a thrwy ffocysu ar y themâu a'r nodau trosfwaol canlynol:

Thema 1: Partneriaeth a Chydweithio	Nod 3: Cefnogi Iechyd a Llesiant Dysgwyr
Thema 2: Adfer ar ôl Pandemig	Nod 4: Gwella Cyflawniad a Dilyniant
Nod 1: Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Systemau	Nod 5: Datblygu'r Amgylchedd ar gyfer Dysgu
Nod 2: Datblygu'r Gweithlu Addysg	



Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson a nodir ar adnodd o'r enw Strategaeth ar Dudalen. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amcan llesiant, y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ac mae'n sail i hunan-werthuso a Chynlluniau Gwella Busnes yr adrannau. Mae'n bwysig nodi ar gyfer blynyddoedd academiaidd 2019/20 a 2020/21 **na fydd** Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystod o fesurau perfformiad ar draws gwasanaethau, gan gynnwys yr holl fesurau cyrhaeddiad (Dechrau'n Deg, Ysgolion, Gwasanaethau Ieuenctid) a ffigurau presenoldeb. Mae hyn yn effeithio ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol fel y nodwyd ar y Strategaeth ar Dudalen.

Byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd pob plentyn a pherson ifanc:

- Â dyheadau a disgwyliadau uchel drostynt eu hunain;
- Yn dechrau addysg statudol ar ôl cael dechrau da i ddysgu gartref ac mewn addysg cyn ysgol lle bo hynny'n briodol;
- Yn cael profiadau addysg sy'n eu cyffroi ac yn eu hysbrydoli i ddysgu a chyflawni;
- Yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau sy'n berthnasol ac yn briodol i ddiwallu anghenion cwricwlwm yr 21^{ain} ganrif;
- Yn gadael ysgolion cynradd yn llythrennog, yn rhifog ac yn gymwys yn ddigidol, yn barod i barhau â'u haddysg yn hyderus ac yn llwyddiannus;
- Yn gadael addysg statudol gyda'r priodoleddau a'r sgiliau bywyd angenrheidiol i'w galluogi i bontio'n llwyddiannus i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant;
- Yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt lesiant emosïynol cryf;
- Yn cael llais mewn cynlluniau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer datblygiadau eu hamgylchedd lleol yn y dyfodol; a
- Bod â'r sgiliau i addasu i heriau ac maent yn gallu gweithio fel dinasyddion annibynnol a rhyngddibynnol.

Sut mae'r thema 'Dechrau Gorau i Fywyd' yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau ehangach?

Ffocws ar y Dyfodol



Bywyd Gwaith

- Mae cefnogi plant a phobl ifanc i ennill sgiliau uwch yn cefnogi marchnad lafur mwy medrus
- Mae ysgolion yn cyflwyno plant a phobl ifanc i'r cysyniad o le, ac yn helpu i ehangu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a'u diwylliant



Llesiant Amgylcheddol

Cynllun Llesiant y BGC

Gwytnwch a Llesiant Cymunedol

- Mae ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu ac yn rhoi cymorth o ran datblygu sgiliau i alluogi plant a phobl ifanc i fod yn fwy hunanddibynnol/gwydn

Ffyrdd o Fyw, Iechyd a bod yn Agored i Niwed

- Codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r angen i sicrhau eu bod yn ailgylchu deunyddiau
- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl
- Cynllun effeithlonrwydd ynni "Re:fit" a fydd yn lleihau allyriadau carbon mewn ysgolion a gwella cynaliadwyedd ariannol y defnydd o ynni
- Darparu adeiladau ysgol cynaliadwy, carbon isel ac ynni effeithlon gyda chostau cynnal a chadw isel drwy Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif



Byw yn Dda

- Mae gan bobl ifanc sydd â chymwysterau gwell ddewis ehangach o opsiynau o ran gyrfaeod a chyflogaeth: gall gwaith â chyflog da arwain at welliant yn eu cyfleoedd i fyw'n annibynnol a chael lles meddyliol cadarnhaol
- Mae ymarferwyr Dechrau Gorau yn gweithio'n agos gyda'r Tim Datblygu Chwaraeon i sicrhau mynediad cyfartal i weithgareddau, gan gefnogi gwell llesiant corfforol a meddyliol.

- Mae ysgolion yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am wahanol fathau o chwaraeon a gweithgareddau, gan gefnogi gwell iechyd a dewisiadau ffordd o fyw
- Mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fod yn fwy egniol yn gorfforol, drwy amrywiaeth o bartneriaethau yn lleol ac yn rhanbarthol

Economi a Seilwaith

- Nod y cynllun Dechrau Gorau yw codi dyheadau ymhlith pobl ifanc a'u gwneud yn ymwybodol o opsiynau gyrfaol a'r llwybr y mae angen iddynt gymryd er mwyn gwella'u cyfleoedd i gyflawni eu nodau
- Mae Rhaglen buddsoddi cyfalaf Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn darparu ysgolion arloesol newydd eu hadeiladu neu eu hadnewyddu sy'n cefnogi'r economi drwy gaffael lleol, manteision cymunedol a darparu asedau cymunedol

Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Mae ysgolion a chlybiau ieuentid yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc wneud a chynnal cysylltiadau y tu allan i amgylchedd yr ysgol



Bywyd Gwaith



Aelod Portffolio
Y Cyngorydd Geraint
Thomas

Amcan	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion busnesau, gyda datblygiad; seilwaith diogel sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol
Canlyniad Sylfaenol	Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.
Swyddog Arweiniol	Dirprwy Brif Weithredwr
Ffocws Gwella	Adferiad Economaidd

Fel Cyngor rydym yn ffocysu ar gefnogi ein trigolion, ein busnesau a'r economi. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein 3 chanlyniad allweddol: 'Mae Merthyr Tudful yn gwredu ei botensial economaidd llawn, gyda gweithlu medrus a gwell cyfleoedd cyflogaeth'; 'Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan ddiogelu a gwella ein hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol'; 'Mae gennym gymunedau cryf, gwydn a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a sut maent yn effeithio ar eraill'.

Isod ceir enghreifftiau o sut mae adrannau CBSMT yn cyfrannu at yr amcan llesiant hwn.

Timau Rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau	Tîm Cymorth Busnes a Mewnfuddsoddi	Tîm Datblygu Chwaraeon, Treftadaeth a Diwylliant
Adfywio Strategol	Seilwaith Strategol	Tîm Rheoli Cyrchfannau
Tîm Cyllid Ewropeaidd ac Allanol	Iechyd yr Amgylchedd	Tîm Safonau Masnach
Tîm Trwyddedu	Diogelwch Cymunedol	Safonau Masnach
Tîm Refeniw a Budd-daliadau	Tai, Digartrefedd a Grantiau Cymorth Tai	Adran Gynllunio
Tîm Priffyrdd	Tîm Peirianeg	Gwasanaethau Cymdeithasol
Adran Ystadau	Timau Cefn Gwlad, Parciau a Bioamrywiaeth	Adran Addysg
Adran Blynyddoedd Cynnar	Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Timau Perfformiad a Chraffu
Tîm Cyllid a Chyfrifo	Adnoddau Dynol	Adran TGCh

Adran Gyfreithiol	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Cynrychiolwyr ysgolion lleol
-------------------	------------------------------	------------------------------

Mae partneriaid eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant hwn, rhestrir y rhain isod.

Adran Gwaith a Phensiynau	Heddlu De Cymru	Y Coleg, Merthyr Tudful
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Tasglu'r Cymoedd	Bargen Ddinesig Prifddinas Rhanbarth Caerdydd
Rhentu Doeth Cymru	Consortiwm Hyfforddiant Tudful	Canolfan Mentergarwch Merthyr Tudful
Nwy Prydain	Partneriaeth Adfywio Taf Bargod	Partneriaeth Canol y Dref
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful	Cymdeithas Tai Wales & West	Merthyr Valley Homes
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	Ffos y Frân	Sefydliad Bevan
Fforwm Microbiologol Bwyd Cymru	Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful	Llu Ffiniau'r DU
Canolfan Soar	Pwyllgor Cyswilt Gorfodi Cyfraith Bwyd Cymru	Lywodraeth Cymru
Clwb Bechgyn a Merched Penydarren	BAWSO	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Timau Iechyd Galwedigaethol Cymunedol	Llamau	Merthyr Tudful Mwy Diogel
Gyrfa Cymru	Canolfan Cyngor ar Bopeth	Asiantaeth Safonau Bwyd
Busnes Cymru	Partneriaeth Canol y Dref	The Roost, Troedyrhiw
Penaethiaid Safonau Masnach Cymru	MIND Cwm Taf Morgannwg	Alzheimer's Society
Adref	Cyngor Dylunio Cymru	The Urbanists
Penseiri Ian Ritchie	The MEANS	CADW

Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chydweithredol i leihau anfantais gymdeithasol trwy gefnogi datblygiad parhaus yr economi lleol; cynnal a gwella ymwybyddiaeth y gymuned o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt tra'n cynnig cyngor a chefnogaeth ar sut i'w cyrchu.

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw llesiant personol a llesiant materol ar wahân: mae'r ddau wedi'u cysylltu, gyda rhyddid a chyflawni personol yn adlewyrchu adnoddau pobl yn fawr iawn. Drwy ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig yn yr economi mae cyfleoedd cyfoeth a chyflogi yn cael eu creu, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y rhain trwy dderbyn cefnogaeth i gael gwaith teg. Bydd darpariaeth sy'n galluogi gwasanaethau megis cludiant cyhoeddus o help i gyflawni hyn.

Mae Gwasanaethau Amddiffyn a Diogelwch y Cyngor yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran cadw cymunedau'n ddiogel yn ystod y pandemig parhaus. Bydd gwaith yn parhau i helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag masnachu annheg a bod busnesau y maent yn eu defnyddio yn parhau i fod yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Bydd gweithgareddau fel darparu cyngor a chymorth yn parhau i fod yn fusnesau lleol; eiddo trwyddedig a sefydliadau eraill yn cynnig gwasanaethau i breswylwyr dros y 12 mis nesaf; eu helpu i barhau i fasnachu'n ddiogel, gan gynnal eu busnesau.

Y canlyniadau allweddol y mae Bywyd Gwaith am eu cyflawni yw:

- Mae Merthyr Tudful yn cyflawni ei photensial economaidd llawn, gyda gweithlu medrus a gwell cyfleoedd cyflogaeth;

- Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan ddiogelu a gwella ein hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol; ac
- Mae gennym gymunedau cryf, gwydn a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a sut maent yn effeithio ar eraill.

Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn drwy weithgareddau wrth ymateb i'n strategaeth allweddol, y Strategaeth Twf Economeg ac wrth fynd i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol:

Gwella mynediad i addysg fydd yn arwain at gynyddu nifer y trigolion a chymwysterau	Cefnogi datblygiadau twristiaeth, hamdden ac adloniant addas gan wneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol a'n hasedau treftadaeth/diwylliannol;
Cynyddu nifer pobl leol sy'n cael mynediad i, sicrhau a chynnal cyflogaeth, gan wella argaeledd y gweithlu i'r farchnad leol;	Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer tai cynaliadwy ac adnewyddadwy, a datblygiadau ynni adnewyddadwy;
Cynyddu'r gyfran o fusnesau newydd a rhai sydd wedi goroesi gan gynnwys mentrau cymdeithasol;	Creu cymunedau cynaliadwy sydd ag ymdeimlad cryf o le ac sydd ganddynt botensial economaidd cynyddol; a
Cynyddu cynhyrchiant y sector busnes	Gwella cludiant cyhoeddus a moddau cludo cynaliadwy



Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

Byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:

- Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:
- Pobl ym Merthyr yn cael gafael ar y sgiliau i fodloni anghenion newidiol cyflogwyr;
- Ein hamgylchedd a seilwaith yn newid er mwyn diwallu'r angen dynodedig ac yn hyrwyddo mewnfuddsoddiad a chefnogi trethi busnes i'w helpu i oroesi;
- Ein hasedau treftadaeth a diwylliannol yn parhau i gael eu gwerthfawrogi, eu diogelu, a'u hyrwyddo ac yn hybu gweithgarwch economaidd newydd;
- Pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Merthyr Tudful yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cynnwys; a
- Y rhai mwyaf difreintiedig yn y farchnad dai yn teimlo eu bod yn gysylltiedig, ac yn cael cymorth.

Ffocws ar y Dyfodol

Dechrau Gorau

- Sicrhau bod y sgiliau a ddysgir yn yr ysgol yn cael eu datblygu ymhellach, gan wneud y mwyaf o gyfle'r person ifanc i sicrhau cyflogaeth
- Sefydlwyd ein Partneriaeth Busnes, Addysg a Hyfforddiant a bydd yn tyfu cysylltiadau rhwng y sector busnes a darparwyr addysg Merthyr Tudful



Llesiant Amgylcheddol

- Hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau a mewnfuddsoddwyr o ran defnyddio adnoddau cynaliadwy, gan gynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy
- Yr ydym yn ailffocysu ein cynlluniau ynglŷn â'n Rhaglen Fasnachol er mwyn deall yn well sut y gallwn symud ymlaen yn effeithiol ac yn effeithlon



Byw yn Dda

- Darparu llwybrau gwaith/dysgu wedi'u targedu i blant sy'n derbyn gofal mewn partneriaeth â phartneriaid/rhanddeiliaid allweddol
- Mae gwasanaethau amddiffyn a diogelwch yn diogelu aelodau'r gymuned yn eu bywydau bob dydd
- Darparu cymorth tai i rieni a gofawyr gan sicrhau amgylchedd mwy diogel i deuluoedd, gan gynorthwyo pawb i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain
- Rydym yn cryfhau ein cydweithrediad ymhellach er mwyn cyflawni ein canlyniadau'n well e.e. adeiladu llwybrau cyflogaeth

Cynllun Llesiant y BGC

Gwynnwch a Llesiant Cymunedol

- Cynnig gwasanaethau hygyrch fel y gall aelodau o'r gymuned dderbyn cymorth wedi'i dargedu drwy ganolfannau cymunedol
- Rhoi cyngor, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n effeithio ar deuluoedd e.e. tai, cludiant i'r ysgol ac ati.

Ffyrdd o Fyw, Iechyd a bod yn Agored i Niwed

- Rhoi cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol i gymunedau drwy ein gwasanaethau Amddiffyn a Diogelu

Economi a Seilwaith

- Arwain ar thema Economi a Seilwaith BGC Cwm Taf. Drwy ddarparu ei wasanaethau, mae'r thema Bywyd Gwaith yn llwyr gefnogi'r maes hwn o gynllun y BGC

Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Bydd y tîm Diogelwch Cymunedol yn cynnig cymorth o ran cydlyniant cymunedol, troseddu ac ofn troseddau
- Mae'r Tim Trwyddedu a Safonau Masnach yn helpu i ddiogelu aelodau'r gymuned yn eu bywydau bob dydd



Byw yn Dda



Aelod Portffolio
Y Cyngorydd Chris Davies

Amcan	Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol ac iechyd meddwl da.
Canlyniad Sylfaenol	Sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel o fewn eu cymunedau.
Swyddog Arweiniol	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cymdeithasol
Ffocws Gwella	Cynyddu ein gwytnwch ym maes Gofal Cymdeithasol

Fel y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, rwyf i, ochr yn ochr â'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol, cydweithwyr yn y Tîm Rheoli Corfforaethol, Cabinet y Cyngor ac Aelodau ehangach y Cyngor, yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod amcanion llesiant y Cyngor yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am yr amcan 'Byw yn Dda', sy'n ceisio sicrhau bod 'pobl yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da'.

Byddwn yn parhau i weithio ar ein strategaethau a'n cynlluniau, gan ffocysu ar dri phrif ganlyniad blaenoriaeth: 'Mae pobl yn byw'n annibynnol yn eu cymunedau'; 'Mae plant ac oedolion yn cael eu diogelu rhag niwed ac yn teimlo'n ddiogel'; 'Mae plant a phobl ifanc yn byw'n ddiogel gyda'u teulu neu'n agos i'w cartrefi ac wedi trosglwyddo'n dda i fod yn oedolion'.

Mae ffocws allweddol ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant ar waith Ymyrraeth Gynnar ac Atal, fel yr amlinellir yn y manylion yn y cynllun hwn. Mae gwaith mewnol cadarnhaol yn cael ei wneud ar draws cyfarwyddiaethau, gwell perthynas â'r trydydd sector a gwaith partneriaeth da ar draws y rhanbarth. Mae gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a'r Trydydd Sector wedi bod yn hanfodol ac rwy'n teimlo bod y berthynas yn gryfach nag erioed o ganlyniad. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau i'n pobl fwyaf agored i niwed.

Isod ceir enghreifftiau o sut mae adrannau CBS Merthyr Tudful yn cyfrannu at yr amcan llesiant hwn.

Llwyddiant a Phontio Cynaliadwy	Atal ac Ymyrraeth Gynnar	Ymateb a Galluogi Cychwynnol
Tîm Diogelu	Tîm Cefnogi Newid	Pobl Hŷn ac Anabledd
Hyb Cymorth Cynnar	Gofal Preswyl	Comisiynu Gwasanaethau

Iechyd Meddwl Cymunedol	Plant sy'n Derbyn Gofal	Gwasanaethau Gofal Gwell
Adran Addysg	Cyflogadwyedd a Sgiliau	Diogelwch Cymunedol
Adran Drwyddedu	Gwasanaethau Ieuencid	Tai a Chefnogi Pobl
Tîm Plant ag Anableddau	Tîm Datblygu Chwaraeon, Treftadaeth a Diwylliant	Tîm o Amgylch y Teulu
Adran Gyfreithiol	Tîm Cymorth i Deuluoedd	Adran Refeniw

Mae partneriaid eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant hwn, rhestrir y rhain isod.

Barnardos	Adref	Gofal
Gofal a Thrwsio	Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful	Y Coleg, Merthyr Tudful
Bwrdd Diogelu Rhanbarthol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont	Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Cydweithio ar Fabwysiadu Rhanbarthol	Cyngor Bro Morgannwg
Llamau	Drws Ffrynt Rhanbarthol ar gyfer Maethu	Fframwaith Maethu Cenedlaethol
Gwasanaeth a'r Bwrdd Rheoli Troseddau Ieuencid Cwm Taf	Heddlu De Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Tîm Dyletswydd Argyfwng Cwm Taf a Phen-y-bont	Fframwaith Comisiynu 4CS
Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful	Grŵp Llywio Trawsnewid	Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol
VAMT	Bwrdd Offer ar y Cyd	Merthyr Tudful Mwy Diogel

Mae'r Amcan Llesiant Byw yn Dda yn ymwneud a chodi nifer yr unigolion, teuluoedd a chymunedau i sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt hwy eu hunain. Mae'n ymwneud â chodi gwytnwch a darparu lefel briodol cefnogaeth cyn i broblemau godi neu gynyddu. Bydd hyn yn helpu lleihau'r angen i fod ynghlwm ag unrhyw argyfwng ac yn helpu mwy o waith ataliol.

Mae gweithio'n agos a'n partneriaid i fynd i'r afael a phrofiadau bywyd gwael plant yn gynnar yn sicrhau bod teuluoedd mwy bregus yn aros gyda'i gilydd; cynyddu nifer y plant sy'n gallu byw gartref yn ddiogel (neu'n agos i gartref) ac yn eu rhwystro nhw rhag gorfod bod mewn gofal.

Bydd darparu'r wybodaeth gywir a chefnogaeth ar yr adeg gywir i bobl hŷn bregus yn eu galluogi nhw i gael gwell reolaeth dros eu bywydau nhw eu hunain, yn helpu atal rhag bod yn unig ac yn eu helpu i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Drwy wasanaethau megis 'Ymateb Dechreuol ac Ailalluogi' a '@Gwasanaeth Cartref' cefnogir pobl i gadw'n iach a byw yn annibynnol gartref, gan osgoi'r angen i fynd i ysbyty. Pan fydd yn angenrheidiol i bobl fynd i'r ysbyty, cefnogir unigolion i ddychwelyd i'w cartrefi mewn modd diogel ac amserol.

Y canlyniadau mae Byw yn Dda eisiau eu cyflawni yw:

- Mae pobl yn byw bywydau diogel ac annibynnol yn eu cymunedau;
- Gwarchod plant ac oedolion rhag niwed a gofalu eu bod yn ddiogel;
- Mae a phobl ifanc yn byw yn ddiogel gyda'u teuluoedd neu yn agos at eu cartref a throsglwyddo'n dda i fywyd oedolyn;

Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn drwy ffocysu ar ein blaenoriaethau ar gyfer gwella: (gan ystyried goblygiadau Covid-19).

Gwella gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal (oedolion, plant a theuluoedd);	Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed;
Lleihau'n ddiogel nifer y plant sy'n derbyn gofal;	Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas;
Galluogi nifer cynyddol o oedolion i fyw'n annibynnol;	Cynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal yn ddiogel perthnasau cartref, teulu a phersonol iachus;
Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni;	Mae gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau mwy o les economaidd yn cael bywyd cymdeithasol ac yn byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion;
Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol pobl.	



Mae yna nifer o gynlluniau a strategaethau rhanbarthol sy'n helpu i gyflawni'r amcan hwn, gan gynnwys 'Cynllun Rhanbarthol 2018-2023' Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf a Chynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg 2019-2020. Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda swyddogion allweddol a rhanddeiliaid eraill er mwyn adolygu a symleiddio cynlluniau a strategaethau presennol. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â dyblygu ac yn nodi cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson, a gaiff ei gipio ar adnodd a elwir yn Strategaeth ar Dudalen. Mae'r ddogfen hon yn nodi amcanion llesiant, canlyniadau a dangosyddion perfformiad allweddol; ac yn ffurfio sail i hunan-werthuso.

Byddwn yn gwybod bod pethau'n well oherwydd y canlynol:

- Gostyngiad diogel yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu sy'n derbyn gofal
- Bydd nifer y plant sy'n gallu byw gartref yn ddiogel yn cynyddu
- Bydd nifer y plant sydd mewn gofal ac yn cael bywyd mwy sefydlog yn cynyddu
- Bydd nifer pobl hŷn sy'n aros mewn ysbyty yn hirach nag sydd angen oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn lleihau
- Bydd nifer yr oedolion sy'n gallu byw yn annibynnol ar ôl cyfnod o ailgartrefu yn cynyddu
- Bydd mwy o bobl sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn nodi gwelliant yn ansawdd eu bywyd
- Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cael cymorth cynnar
- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael cymorth i aros gartref yn ystod Cam 2 Cadw'n Iach Gartref; a
- Byddwn yn hyrwyddo defnyddwyr gwasanaethau i gael llais drwy gynyddu ein cynigion eiriolaeth.

Ffocws ar y Dyfodol

Dechrau Gorau

- Mae ein rhaglen faethu newydd ei datblygu yn anelu at gynyddu ein cyflenwad o ofalwyr maeth ym Merthyr Tudful.
- Rydym yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i sicrhau diogelwch a lleihau'r risg o niwed i les plant.
- Rydym yn gweithio gyda'n gilydd gydag addysg i hyrwyddo'r Hyb Cymorth Cynnar ac Atal.



Bywyd Gwaith

- Drwy brosiect ar y cyd, rydym yn datblygu proses llwybr at waith ar gyfer pobl ifanc brofiadol a fydd yn gwneud y gorau o'u potensial i weithio ac yn gwella lles fel oedolion ifanc.
- Mae Gofal Cymdeithasol yn creu cyflogaeth o fewn yr ardal.



Llesiant Amgylcheddol

- Cefnogi plant sy'n derbyn gofal i ddod yn ddinasyddion mwy gweithgar ac yn fwy cymdeithasol gyfrifol.
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy hyrwyddo rhaglenni cartrefi cynnes.
- Rydym yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio drwy'r Prosiect Cartrefi Iach.
- Rhoddir ystyriaeth i nodweddion amgylcheddol mewn unrhyw adeiladau newydd.

Cynllun Llesiant y BGC

Gwynwch a Llesiant Cymunedol

- Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn trosglwyddo'n sefydlog ac yn llwyddiannus i fyd oedolion.
- Mae'r Hyb Cymorth Cynnar yn hyb atal amlasiantaethol sy'n gweithio ar y cyd â phartneriaid allweddol ar draws y Cyngor, gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector i gynyddu gwynwch yn y boblogaeth sy'n agored i niwed.

Ffyrrd o Fyw, Iechyd a bod yn Agored i Niwed

- Mae llawer o ofalwyr a darparwyr maeth yn gwneud defnydd da o'r awyr agored yn eu gwaith gyda phobl ifanc i adeiladu gwynwch a gwella iechyd a lles.
- Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu timau llesiant cymunedol.
- Rydym yn darparu gwasanaethau cymorth (gan gynnwys therapi) i wella iechyd emosiynol pobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Economi a Seilwaith

- Gweithio gyda phobl hŷn i ddatblygu ystod o gartrefi mewn cymunedau sy'n deall dementia.
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy hyrwyddo rhaglenni cartrefi cynnes.

Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Gweithio gyda Thai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynyddu'r cyflenwad o lety â chymorth.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a phartneriaid i leihau'r unigrwydd, yr effaith a'r stigma sy'n ymwneud â derbyn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal.



Llesiant Amgylcheddol



Aelod Portffolio
Y Cynghorydd David Hughes

Amcan	Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad
Canlyniad Sylfaenol	Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau drwy'r hierarchaeth wastraff
Swyddog Arweiniol	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cymdogaeth
Ffocws Gwella	Llesiant Amgylcheddol

Mae'r amcan Llesiant Amgylcheddol hwn yn darparu ymagwedd gyfannol i fodloni anghenion Llesiant Merthyr Tudful. Ein blaenoriaeth yw gweithio tuag at y targed Cymru gyfan o ddod yn genedl dim gwastraff erbyn 2050 a chwarae ein rôl yn sector cyhoeddus Cymru gan ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Bydd ein gweithredoedd, a sut yr ydym yn defnyddio'r amgylchedd, yn hanfodol i ddyfodol cynaliadwy i Ferthyr Tudful a bydd pawb yn teimlo buddion gwella ein hamgylchedd. Drwy gynyddu ein gwytnwch i risgiau newid yn yr hinsawdd, byddwn yn lleihau ein hamlygrwydd i ddifrod llifogydd a achosir i adeiladau, seilwaith a gwasanaethau, tra'n gwella mannau gwyrdd.

Isod ceir enghreifftiau o sut mae adrannau CBSMT yn cyfrannu at yr amcan Llesiant hwn.

Gwasanaethau Gwastraff	Bioamrywiaeth	Gwasanaethau Eiddo
Polisi a Gweithredu	Rheolaethau Datblygu (gan gynnwys ardaloedd cadwraeth)	Asedau Treftadaeth a Diwylliannol
Cyllid Ewropeaidd ac Allanol	Gwasanaethau Tirwedd	Mannau Agored
Glanhau Strydoedd	Priffyrdd a Pheirianneg	Safleoedd Amwynder Dinesig
Rheoli Adeiladu	Adfywio Strategol	Seilwaith Strategol
Tipio Anghyfreithlon	Iechyd yr Amgylchedd	Adran Addysg
Canolfan Ailddefnyddio Dodrefn	Parciau a Phrofedigaeth	Adfywio Cymunedol
Diogelwch Cymunedol	Tai a Chefnogi Pobl	Cymorth Busnes a Mewnfuddsoddi
Treftadaeth, Twristiaeth a Diwylliant		

Mae yna bartneriaid eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant hwn, rhestrir y rhain isod.

WRAP Cymru	Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Caru Cymru	Cyfeillion Taf Bargod	Cadwch Gymru'n Daclus
Cymdeithas Syrfewyr Sirol	Cyngor Sir Caerfyrddin	Rhondda Cynon Taf
Asiant Cefnffyrdd De Cymru	Merthyr Valleys Homes	Ta clo Tipio Cymru
Capita	Llif Data Gwastraff	Heddlu De Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfyrddin	Cymdeithas Arolygon Sirol Cymru
Barod	Redstart	Cyngor Dinas Caerdydd
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru	Grŵp Rheolwyr Rheoli Datblygu De-ddwyrain Cymru (ac ehangach)	Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful	Viridor Waste Management Ltd	Ynni o Wastraff
Biogen Ltd	Cyngor Dinas Casnewydd	Dŵr Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Heddlu Gwent	Mannau Gwyrdd Cymru	Caffi (Scoops) ym Mharc Taf Bargod
Rheilffordd Model Cyfarthfa	Cymdeithas Bysgota Merthyr	Dŵr Cymru
Cyfeillion Parc Cyfarthfa	Cyfeillion Parc Taf Bargod	Elusen Trychineb Aberfan
Bro Morgannwg	Trafnidiaeth Cymru	Grŵp Cymunedol Pontsticill

Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol i fodloni anghenion llesiant ym Merthyr Tudful. Dylid dehongli'r anghenion hynny i gynnwys manau gwyrdd o ansawdd dda a chysylltedd, diogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth, systemau eco gwydn, tirwedd ac atal llygredd. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i'r amgylchedd yn ei gryswth, bydd yn fuddiol i ardaloedd ble mae problemau neu risgiau amgylcheddol allweddol.

Ffocws yr amcan llesiant hwn yw'r gwaith a wnawn â'n cymunedau i warchod, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad. Bydd y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactor hanfodol o ddyfodol cynaliadwy ym Merthyr Tudful oherwydd bydd y manteision o wella ein hamgylchedd i'w gweld ar draws ein holl amcanion llesiant.

Y canlyniadau allweddol y mae Llesiant Amgylcheddol am eu cyflawni yw:

- Lleihau difrod trwy atal llygredd
- Gwneud y gorau o ddefnyddio deunyddiau ac adnoddau ailgylchadwy trwy'r hierarchaeth wastraff;
- Bod gan Ferthyr Tudful seilwaith manau agored a manau gwyrdd o ansawdd dda a bioamrywiaeth gysylltiedig; a
- Datgarboneiddio ein hadeiladau drwy leihau gwastraff ynni a defnyddio technolegau adnewyddadwy a charbon isel lle bo hynny'n bosibl.

Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn trwy'r Cynllun Rheoli Gwastraff, y Cynllun Rheoli Carbon (CRhC) a'r Cynllun Adfer Natur a thrwy ffocysu ar fynd i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella:

Cynyddu swm yr holl ailgylchu yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn cwrdd, a rhagori ar, y targedau ailgylchu a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.	Lleihau lefelau tipio anghyfreithlon
Lleihau'r cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person	Cynyddu nifer y Mannau Agored â Blaenoriaeth (allan o 23 o Fannau Agored â Blaenoriaeth) sy'n bodloni neu'n rhagori ar y safon ansawdd: Yn Iach, yn Saff ac yn Ddiogel
Gwella safon glanweithdra ar ein priffyrdd	Lleihau Allyriadau Carbon mewn adeiladau a'r fflyd



Mae sbardunau strategol pwysig eraill a fydd yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol, y Cynllun Adfer Natur, y Cynllun Rheoli Carbon a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson a nodir ar adnodd o'r enw Strategaeth ar Dudalen. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amcanion llesiant, y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ffurfio'r sail ar gyfer hunan-werthuso. Bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd i adolygu a datblygu cynlluniau gwella busnes cadarn.

Byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan:

- Ansawdd yr aer ar Twynrodyn Road yn gwella;
- Allyriadau CO₂ yr awdurdod lleol yn gostwng 3% o'i hadeiladau (y flwyddyn);
- Yr amser a gymerir i glirio achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodir ar dir y Cyngor yn gwella;
- Mae glendid ein strydoedd yn gwella;
- Mae ein cyfraddau adfer yn gwella; a
- Cheir cynnydd o Fannau Agored â Blaenoriaeth (allan o 23 o Fannau Agored â Blaenoriaeth) sy'n bodloni neu'n rhagori ar y safon ansawdd: Yn Iach, yn Saff ac yn Ddiogel.

Sut mae'r thema 'Llesiant Amgylcheddol' yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau ehangach?

Ffocws ar y Dyfodol

Dechrau Gorau

- Cefnogi ysgolion mewn unrhyw waith codi ymwybyddiaeth a wnaed ganddynt mewn perthynas â'r angen i sicrhau eu bod yn ailgylchu deunyddiau.
- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl.



Bywyd Gwaith

- Darparu rheolaeth ar wastraff; gwasanaethau ailgylchu a glanhau strydoedd, cryfhau ymrwymiad y dref i fod yn lle i ymfalchïo ynddo a sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn rhydd o risg.



Byw yn Dda

- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl.
- Cydweithio'n agos gyda'r timau Adfywio Cymunedol i greu mannau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol cost isel.
- Yn ystod y pandemig i ddefnyddio man agored gwyrdd glân i gerdded drwyddo a'i ddefnyddio i gynorthwyo gydag iechyd meddwl.

Cynllun Llesiant y BGC

Gwynwch a Llesiant Cymunedol

- Cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor o gynnal a chadw goleuadau stryd yn y fwrdeistref sirol, gan helpu i greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer cymunedau lleol.
- Sicrhau diogelwch ac amddiffyniad cymunedau drwy sicrhau bod adeiladau a threftadaeth newydd a rhai wedi'u newid yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu presennol.

Ffyrdd o Fyw, Iechyd a bod yn Agored i Niwed

- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl.
- Cydweithio'n agos â'r timau Adfywio Cymunedol i ddarparu gwell llwybrau a mannau i gerddwyr ac annog pobl i deithio'n llesol.

Economi a Seilwaith

- Sicrhau seilwaith diogel a glân a gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan atyniadol i'r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â hi.
- Sicrhau bod pob datblygiad tai newydd yn cynnwys nifer ddyranedig o unedau fforddiadwy i ateb y galw a nodwyd.





Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Cydweithio'n agos gyda'r timau Adfywio Cymunedol i greu mannau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol cost isel.

2.5 Cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol

Y 7 nod llesiant cenedlaethol (gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a Nodau Llesiant yn y [Canllaw](#) hwn) yn dangos y math o Gymru yr ydym am gael. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth ar y cyd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb byr o ble mae ein Hamcanion Llesian yn cyd-fynd yn bennaf â'r Nodau Llesiant.

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, mapiwyd yr ymateb cychwynnol a gynlluniwyd i'r nodau llesiant cenedlaethol. Rydym nawr dros y pwynt cyflawni hanner ffordd mewn perthynas â'r Cynllun hwn, ac yn parhau i sicrhau ei fod yn cael adnoddau effeithiol. Rydym wedi adolygu ein cyfraniad presennol at y nodau llesiant er mwyn canfod a allwn, drwy wneud pethau gwahanol, ddangos mwy o gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol.

Amcan Llesiant	Cyfraniadau at Nodau Llesiant yn 2017							Cyfraniadau at Nodau Llesiant yn 2020							Cyfraniadau at Nodau Llesiant yn 2021							
 Y Dechrau Gorau i Fywyd	Yellow	White	Red	Red	White	White	Blue	Yellow	Orange	Red	Red	White	White	Blue	Blue	Yellow	Orange	Red	Red	Dark Blue	Blue	Blue
 Bywyd Gwaith	Yellow	Orange	White	Red	Dark Blue	Blue	Blue	Yellow	Orange	Red	Red	Dark Blue	Blue	Blue	Yellow	Orange	Red	Red	Dark Blue	Blue	Blue	
 Llesiant Amgylcheddol	Yellow	Orange	White	White	Dark Blue	Blue	Blue	Yellow	Orange	Red	Red	Dark Blue	Blue	Blue	Yellow	Orange	Red	Red	Dark Blue	Blue	Blue	
 Byw yn Dda	White	White	Red	Red	Dark Blue	White	Blue	White	Orange	Red	Red	Dark Blue	White	Blue	Yellow	Orange	Red	Red	Dark Blue	White	Blue	

Trwy fyfyrto a gwerthuso, rydym wedi nodi nifer o enghreifftiau o sut y mae ein cyfraniadau wedi datblygu o ganlyniad i ni'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol yn cynnig enghreifftiau o sut rydym wedi gwneud hyn. Wrth ymateb i bandemig y coronafeirws, rydym wedi cynyddu ein cyfraniad i Gymru o gymunedau cydlynol drwy'r gwaith a wneir gydag ysgolion rhydd a chynyddu cynhwysiant digidol i'n dysgwyr. O fewn Byw yn Dda, rydym wedi cynyddu'r ffordd rydym yn cyfrannu at Gymru ffyniannus drwy gydweithio i ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn well.

Adran 3 - Cyflawni'r Cynllun

3.1 Adfer → Trawsnewid → Gwella – Ein Cynllun 2020 i 2025

Ar ôl pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020, cymerwyd cam rhagweithiol gennym a gofyn i Lywodraeth Cymru ein cefnogi yn y cyfnod heriol hwn. Penododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Fwrdd Gwella a Sicrwydd i gynnal ymarfer asesu cyflym. Er mwyn ymateb i ganlyniadau'r asesiad hwn, datblygwyd Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (ATG).



Datblygwyd y Cynllun ATG yn 2020, yn ystod Pandemig y Coronafeirws. Fel gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau, yn gyntaf bu'n rhaid i ni ymateb i anghenion ein trigolion yn ystod y pandemig. Yn dilyn hyn, byddwn yn trosglwyddo i'r cyfnod adfer. Adlewyrchir hyn yn y Cynllun ATG.

Mae'r Cynllun ATG yn ddogfen fyw sy'n ein galluogi i ffocysu ar gynaliadwyedd wrth wella o'r pandemig, trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio a gwella'r modd y cyflawnir canlyniadau i'n trigolion. Bydd y cynllun hwn yn darparu llwybr gwella 5 mlynedd ar gyfer CBSMT.

Mae ein Cynllun ATG yn nodi **3 maes y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy ar frys** er mwyn gallu cyflawni ein hamcanion llesiant yn well, sy'n golygu gwell canlyniadau i'n trigolion.


Dyma'n **3 blaenoriaeth ar gyfer gwella:**

Bydd y rhain yn mynd i'r afael â'n **canlyniadau blaenoriaeth:**



Gwella ein Safonau Addysg

Gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc



Cynyddu ein gwytnwch ym maes Gofal Cymdeithasol


Sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel o fewn eu cymunedau.



Adferiad Economaidd

Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.

Gan weithio gyda'n Bwrdd Gwella a Sicrwydd, rydym wedi ystyried y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Rydym wedi blaenoriaethu ein gwelliant, gan ganiatáu i ni ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i ddiwallu anghenion ein trigolion yn y ffordd orau. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, Aelodau Etholedig, ein Staff a'n Partneriaid byddwn yn creu Cyngor modern a hyblyg sy'n ffocysu ar ddarparu gwasanaethau o safon i bobl Merthyr Tudful.



Er mwyn cyflawni ein canlyniadau'n well, rhaid i ni newid y ffordd rydym yn gweithio. Cefnogir y Cynllun ATG gan 4 rhaglen waith trawsnewid ar draws y cyngor. Mae'r rhain yn ein helpu i ystyried ein **cyfleoedd digidol**, i ddod yn fwy **masnachol ymwybodol**, i gael yr adnoddau cywir (**Sefydliad Iach**) a **llywodraethu da** (y ffordd rydym yn gweithio).



Mae ein Cynllun ATG hefyd yn ffocysu ar leihau allyriadau carbon a bodloni ein targedau ailgylchu wrth **gefnogi Llesiant Amgylcheddol**.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth gyffredin, mae'n rhaid i ni ddarparu ein gwasanaethau'n wahanol - mae angen i ni edrych ar sut rydym yn gweithio'n well gyda'n gilydd, gyda meddwl mwy cydgysylltiedig, mwy o bartneriaeth a chroesawu technoleg ac arloesedd newydd. Mabwysiadwyd y dull hwn i'n helpu i ymateb i Bandemig y Coronafeirws.

Mae'r egwyddorion a'r blaenoriaethau hyn yn sail i'r Cynllun ATG ac fe'u cefnogwyd gan bob Aelod Etholedig mewn gweithdy ym mis Medi 2020. Mae'r egwyddorion yn cyd-fynd â'n model gweithredu a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag Aelodau Etholedig wrth i ni fireinio ein Cynllun ATG ymhellach. Gellir rhannu ein Cynllun ATG yn wyth rhaglen waith fel y gwelir yn [Atodiad 1](#).

Wrth i ni fireinio'r Cynllun ATG, byddwn hefyd yn ffocysu ar y ffordd orau o ymgysylltu, cynnwys a chyfathrebu â'n partneriaid a'n cymunedau.

Rydym wedi nodi cyllid allanol y gallwn ei ddefnyddio i gyflawni'r cynllun, mae hyn yn gwneud synnwyr economaidd da, ond mae hefyd yn dangos sut mae ein cynllun yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol wrth gyflawni'r [7 nod cenedlaethol](#).

Mae hyn, ynghyd ag adborth o weithdai ymgysylltu blaenorol gydag Aelodau Etholedig (e.e. gweithdai pennu cyllidebau), wedi ein harwain at ddatblygu datganiad cenhadaeth ar gyfer y Cynllun ATG.



Ein Datganiad Cenhadaeth

Byddwn yn arloesol ac yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu drwy:

Ymgysylltu â'n holl randdeiliaid;

Mynd i'r afael â phroblemau drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol; a

Mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio sy'n arwain at ganlyniadau gwell

3.2 Ein Ffyrdd o Weithio

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy (5 ffordd o weithio) a nodau cenedlaethol, a nodir yn adrannau 1 a 2 uchod, yn sail i'r cynllun hwn a'n Cynllun ATG.

Mae ein dogfennau a'n gweithdrefnau llywodraethu a gwneud penderfyniadau allweddol wedi'u hailgynllunio o'r blaen i'n galluogi i weithio o fewn y Ddeddf. Mae ein hasesiad effaith integredig yn golygu bod yn rhaid i ni asesu sut y bydd ein penderfyniadau'n cyfrannu at y 7 nod cenedlaethol ond yn sicrhau ein bod yn gweithio i'r 5 ffordd o weithio. Mae ein [gwerthoedd craidd](#) a'n [model gweithredu](#) ill dau'n cyd-fynd â'r Ddeddf, sy'n golygu y gallwn weithio tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant, cyfrannu at y 7 nod llesiant cenedlaethol a gweithio i'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae yna 5 ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu er mwyn dangos tystiolaeth o sut y maent wedi defnyddio datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Mae dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn cynnig cyfle enfawr i wneud newid cadarnhaol a pharhaol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



Hirdymor
Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.

Rydym yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio drwy:
Ddiweddarau ein hasesiadau effaith yn unol â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus
Mae gennym gynllun adfer, trawsnewid a gwella gyda datganiad cenhadaeth sy'n gwneud i ni ystyried yr hirdymor



Atal
Sut gall atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.

Rydym yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio drwy:
Ddefnyddio'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ein gwaith
Mynd i'r afael â thlodi drwy raglenni a fydd yn ein helpu i ystyried atal, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol penderfyniadau ehangach
Gan gynnwys atal yn ein hymateb i bandemig y coronafeirws, e.e. profion torfol



Integreiddio
Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Rydym yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio drwy:
Ffocysu ar integreiddio ein cynlluniau, gan gynnwys ein cynllun adfer, trawsnewid a gwella fel bod gennym y cyfraniad mwyaf i'n hamcanion llesiant a'n nodau cenedlaethol
Blaenoriaethu ein canlyniadau a gweithredu ein rhaglen Gwella Llywodraethu i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar ein hamcanion llesiant a chefnogi ein partneriaid (e.e. dull Tîm Merthyr).



Cydweithredu
Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Rydym yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio drwy:
Adeiladu ar waith rydym wedi'i wneud gyda phartneriaid drwy gydol y pandemig
Mabwysiadu dull Tîm Merthyr gyda'n partneriaid i ddefnyddio adnoddau'n well a chael mwy o effaith ar gyflawni ein hamcanion llesiant a chyfrannu at y nodau cenedlaethol
Integreiddio amcanion ein BGC yn y cynllun hwn



Cyfranogiad
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.


Rydym yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio drwy:
Ymgysylltu â'n trigolion, ein partneriaid a'n busnesau, a'u cynnwys, fel y gallant ein helpu i lywio ein taith i roi gwell canlyniadau, mae rhai enghreifftiau'n cynnwys ein strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau, dull Tîm Merthyr a'r Bartneriaeth Busnes, Addysg a Hyfforddiant Cryfhau ein swyddogaeth graffu fel rhan o'n cynllun adfer, trawsnewid a gwella

Ein Gwerthoedd Craidd

Mae gennym 7 gwerth craidd. Datblygwyd y rhain gyda'n staff fel rhan o raglen o gynnwys staff ac ymgysylltu ynghylch sut rydym am weithio. Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u hymgorffori yn ein 'llynyn euraidd' (dolen o amcanion personol i nodau tîm i'n hamcanion a'n gweledigaeth llesiant) lle mae pob aelod o staff yn profi sut maent yn gweithio i'n gwerthoedd yn ystod eu hadolygiadau blynyddol a chanol blwyddyn (proses Ffocysu ar Berfformiad).

Ein Model Gweithredu

Mae model gweithredu cymeradwy ein Cyngor wedi'i gynllunio i nodi sut y byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'n ein cefnogi i drawsnewid a gwella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau. Rydym wedi diweddarau ein model gweithredu i gefnogi'r Cynllun ATG. Mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer sut rydym yn gweithio. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'n hardaloedd i gefnogi'r Cynllun ATG.



Trawsnewid Digidol



Sefydliad Iach



Rhaglen Fasnachol



Gwella Llywodraethu

Mae ein model gweithredu (a adeiladwyd ar y 5 ffordd o weithio) yn cynnwys sut y dylem weithio'n **economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol**. Rydym wedi nodi'r 8 egwyddor weithredu a'r disgwyliadau gweithredu diweddaraf isod.

Byddwn yn parhau i adolygu ein model gweithredu i sicrhau ei fod yn addas i'r diben a byddwn yn parhau i roi ein cwsmeriaid a'n trigolion yn gyntaf.

Ein Gwerthoedd Craidd



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu set o **egwyddorion craidd** ac **ymddygiadau** cysylltiedig, sef:

Gonestrwydd a Bod yn Agored

Ymddiriedaeth a Pharch

Atebolrwydd

Dysgu




Dyhead

Gweithio Tîm

Cyfathrebu



Egwyddorion Gweithredu	Disgwyliadau Gweithredu
 <p>Gwranddo ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd ein cynnig gwasanaeth yn cael ei lywio gan angen ein cwsmeriaid • Byddwn yn egluro'r opsiynau cyswllt cwsmeriaid ar gyfer gwahanol grwpiau cwsmeriaid
 <p>Cyfathrebu clir</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gennym strategaeth gyfathrebu glir • Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid • Rydym yn rheoli ein perthnasoedd, ein henw da a'n brand yn weithredol • Byddwn yn ffocysu ar arweinyddiaeth
 <p>Croesawu technoleg ddigidol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gennym gofnod integredig, sengl ar gyfer pob cwsmer • Byddwn yn rhesymoli ein systemau • Rydym yn hyrwyddo hunanwasanaeth a mynediad ar-lein • Byddwn yn ystyried defnyddio technoleg ddigidol i wella mynediad at wasanaethau a'r modd y byddai'n cael eu darparu • Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig i weithio mewn ffordd ystwyth gan leihau ein hól troed carbon
 <p>Ffocysu ar y blaenoriaethau a'r canlyniadau allweddol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn sefydliad gwydn a hyblyg • Mae busnes craidd bob amser yn ffocysu ar wireddu ein Gweledigaeth • Caiff cynlluniau strategol eu pennu fel rhan o ddull cydgysylltiedig o gyrraedd ein blaenoriaethau allweddol • Mae targedau'n gysylltiedig â chyflawni ein canlyniadau allweddol • Byddwn yn sefydliad iach yn buddsoddi mewn staff (e.e. prentisiaethau) ac yn mynd i'r afael â'n problemau capasiti
 <p>Gweithredu'r strategaeth yn gyson ac yn amserol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r polisiau'n gyfoes ac yn addas i'r diben • Mae cynlluniau cyflawni yn glir, yn ddealladwy ac yn eiddo • Byddwn yn gwella ein trefniadau llywodraethu • Rydym yn defnyddio rheolaeth gadarn ar brosiectau sy'n sicrhau darpariaeth amserol o fewn y gyllideb • Rydym yn defnyddio ffyrdd safonedig o weithio • Rydym yn datblygu ein sgiliau, ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol • Bydd cefnogi'r swyddogaethau busnes yn cael ei ganoli

 <p>Mae pawb yn atebol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi ein grymuso ac yn atebol am wneud y penderfyniadau cywir, am y pethau cywir ar yr adeg gywir • Rydym yn cyflawni ein rolau a'n cyfrifoldebau yn unol â'n proses 'Ffocws ar Eich Perfformiad' • Byddwn yn cydnabod cyflawniad a pherfformiad gwael • Byddwn yn monitro, herio a chefnogi perfformiad er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol • Bydd data'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau • Bydd rheoli perfformiad yn ffocws i bob un ohonom
 <p>Alinio'r gyllideb â'r blaenoriaethau allweddol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn diffinio costau gwasanaeth llawn • Byddwn yn deall ac yn rheoli'r galw am wasanaethau • Byddwn yn gwneud penderfyniadau ariannol sy'n cael eu harwain gan ddeallusrwydd (defnyddiwch ein data) • Rydym yn adolygu ac yn nodi'r ffordd orau o ddarparu pob gwasanaeth • Byddwn yn ystyried ein cyfleoedd masnachol
 <p>Hybu annibyniaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn grymuso unigolion a chymunedau • Rydym yn diffinio'n glir ein darpariaeth gwasanaeth ac yn hyrwyddo ac yn cyfeirio darpariaeth amgen gan weithio gyda phartneriaid • Datrysir materion ar y pwynt cyswllt cyntaf • Cytunwn ar lefel y risg rydym yn barod i'w chymryd

Arweinyddiaeth a Llywodraethu – Mae cael arweiniad a llywodraethu da yn hanfodol i gyflawni'r cynllun hwn. Gyda Swyddogion ac Aelodau Etholedig yn parhau i weithio gyda'i gilydd, a chael y systemau a'r prosesau cywir ar waith, byddwn mewn sefyllfa gref i gyflawni'r cynllun hwn, a gwella ac adfer yn barhaus o'r pandemig tra'n trawsnewid y sefydliad. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain, bydd angen i ni barhau i weithio gyda'n partneriaid a chynyddu gweithio mewn partneriaeth, gan adeiladu ar ein dysgu a gawsom yn ystod Pandemig y Coronafeirws.

Byddwn yn:

- Datblygu ein sgiliau staff gan eu galluogi i weithio mewn ffyrdd newydd
- Buddsoddi mewn prentisiaethau a chynlluniau graddedigion i gefnogi ein cynlluniau olyniaeth, ein capasiti a'n gwytnwch
- Parhau â'n taith i ddod yn sefydliad dysgu a datblygu ein talent ein hunain
- Parhau i fonitro ein gallu a mynd i'r afael ag unrhyw faterion
- Byddwch yn gyflogwr y mae pobl am weithio iddo (cyflogwr o ddewis)
- Rhoi mwy o bwyslais ar drawsnewid a pherfformiad drwy'r aelod portffolio cymeradwy ar gyfer 'Trawsnewid a Masnacheiddio'
- Adolygu ein strwythurau staffio i wella ein harweinyddiaeth, gan gefnogi ein cynlluniau ATG a Ffocws ar y Dyfodol
- Adeiladu ar ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i drigolion Merthyr Tudful
- Gwella ein llywodraethu er mwyn dod yn fwy economaidd, effeithlon ac effeithiol

Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Drwy gynnwys ac ymgysylltu â'n staff a'n preswylwyr, byddwn mewn gwell sefyllfa i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein cymunedau yn effeithlon ac yn effeithiol.

Byddwn yn:

- Ymgysylltu â'n trigolion mewn modd amserol ac ystyrion drwy ddefnyddio sianeli amrywiol
- Defnyddio ein model gweithredu a'n gwerthoedd craidd i fod yn agored ac yn dryloyw wrth ddarparu ein gwasanaethau
- Cymhwyso safonau'r Gymraeg yn ein cyfathrebu a'n hymgysylltiad
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n Cyngor Cymuned yn unol â'n Siarter
- Sicrhau bod gennym gyfathrebu effeithiol â'n holl staff, gan gynnwys defnyddio ein fforwm staff

3.3 Ein Trefniadau Llywodraethu a Chefnogi'r Cynllun



Aelod Portffolio
Y Cynghorydd Andrew Barry

Dyfyniad gan yr Aelod Portffolio	<i>"Mae llywodraethu da a gwella'r ffordd rydym yn gweithio yn barhaus yn un o brif ffocws CBSMT"</i>
Gwasanaethau	Gwasanaethau Corfforaethol a Chymorth
Ffocws Strategol	Llywodraethu a Chefnogi'r Cynllun

Mae llywodraethu da a gwelliant parhaus yn un o brif ffocws CBSMT. Drwy ein gwelliant byddwn yn gallu cyflawni ein hamcanion llesiant yn gynaliadwy ac yn gyfartal, sy'n golygu gwell canlyniadau i'n trigolion. Gallwn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod Pandemig y Coronafeirws. Er enghraifft, mae'r ffordd y mae ein timau'n cydweithio i weinyddu grantiau busnes Llywodraeth Cymru ar draws y Fwrdeistref Sirol yn rhyfeddol. Mae hyn yn dangos sut y gallwn gydweithio, integreiddio ein cynlluniau, cynnwys eraill, a bod yn rhagweithiol; meddwl am y manteision hirdymor o ran darparu gwell canlyniadau.

Er mwyn gallu cefnogi ein hadferiad, ein trawsnewid a'n gwella'n gynaliadwy er mwyn cyflawni'r cynllun Ffocws ar y Dyfodol hwn yn well, rhaid i ni sicrhau ein bod yn paratoi'n dda, gan ddefnyddio ein hadnoddau'n economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon. Wrth i ni geisio rhoi mwy o bwyslais ar ein blaenoriaethau ar gyfer gwella a themâu trawsbynciol yn y cynllun hwn, megis mynd i'r afael â thlodi, rhaid i ni foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio i ddiwallu anghenion ein trigolion.

Er mwyn gallu cyflawni ein hamcanion llesiant mae angen i ni gefnogi ein cynlluniau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae gennym ddeddfwriaeth allweddol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, safonau'r Gymraeg, dyletswydd economaidd-gymdeithasol (newydd) a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (newydd), yn ogystal â sawl un arall, i'n cefnogi.

Ein ffocws wrth symud ymlaen yw addasu yn unol â newidiadau i ddeddfwriaeth a chryfhau ein llywodraethu a'n perfformiad. Byddwn yn defnyddio ein dysgu o ymateb i Bandemig y Coronafeirws i helpu.

Bydd gweithio gyda phartneriaid, defnyddio ffyrdd newydd o weithio a defnyddio ein data'n well (gan gynnwys canmoliaeth a chwynion) yn ymddangos yn helaeth yn y ffordd rydym yn ymdrin â hyn. Mae'r diagram drafft hwn o'n trefniadau llywodraethu yn dangos (mewn melyn) y meysydd rydym yn eu datblygu ymhellach yn unol â'n taith wella a newidiadau i ddeddfwriaeth.

Byddwn yn parhau i wella ein fframweithiau a'n systemau llywodraethu presennol.

Bydd ein strwythurau staffio a rheoli yn cael eu profi os ydynt yn addas i'r diben yn erbyn sut y mae angen i ni weithio yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi cryfhau'r ffordd rydym yn cyflawni ein Cynllun ATG a'n gwelliant drwy benodi Aelod Cabinet dros Weddnewid a Masnacheiddio.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Haelodau Etholedig a'n Haelodau Craffu wrth i ni fireinio'r Cynllun ATG a gosod ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Fel Cyngor byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'n perfformiad, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth, lleihau ein risgiau corfforaethol tra'n rheoli ein hadnoddau'n effeithiol: nid yw cynnal y sefyllfa fel y mae yn opsiwn.



Cynllunio Corfforaethol

Mae cynllunio corfforaethol yn allweddol i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu wrth gyflawni ein hamcanion llesiant er mwyn cyflawni ein gweledigaeth.

Fel yr amlinellir uchod mae gennym 4 amcan llesiant, pob un â set o ganlyniadau (un yn ganlyniad sylfaenol neu flaenoriaeth). Er mwyn cipio hyn, ynghyd â sut rydym yn mesur ein llwyddiant (gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol ac astudiaethau achos), mae gennym Strategaeth ar Dudalen ar gyfer pob amcan. Mae hyn yn rhoi ffocws ac yn helpu atebolrwydd a monitro ein cyflawniadau. Er mwyn cyflawni ein Strategaethau ar Dudalen mae gennym gynlluniau gwella busnes adrannol a dogfennau allweddol eraill megis cynlluniau adnoddau, cynlluniau ariannol a chofrestris risg. Mae hyn yn cysylltu â chynlluniau staff unigol, y cyfeirir atynt yn aml fel y 'llinyn euraidd'.

Gwneir ein gwaith cynllunio corfforaethol drwy ystyried darnau allweddol o wybodaeth a data. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau ein hunanarfarnu, ein datganiad llywodraethu blynyddol a'n hadroddiad perfformiad blynyddol. Wrth wneud hyn rydym yn ystyried ffynonellau ansoddol a meintiol. Er mwyn rhoi darlun llawn rydym hefyd yn ystyried ein risgiau corfforaethol (a gofnodir ar ein cofrestr risg gorfforaethol gymeradwy), ein staffio, asedau, sut rydym yn caffael a'n cyllid (sut y gallwn ariannu'r cynllun).

Gwneir hyn i gyd yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu ein gwasanaethau yn erbyn safonau'r Gymraeg, yn enwedig sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Mae hyn yn ein helpu i gefnogi Cymru sydd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Eleni rydym yn cynnwys ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (ATG). Mae hwn yn nodi meysydd allweddol lle mae angen i ni gryfhau er mwyn cyflawni ein hamcanion yn well er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i'n trigolion.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 newydd yn rhoi cyfle i ni gryfhau ein hunanasesiad neu ein hunanarfarnu ymhellach. Ynghyd â hyn, daw'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd i rym ar y 31^{ain} Mawrth 2021, gan ein galluogi i asesu'n well yr effeithiau ar anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gefnogi ein thema drawsbynciol o fynd i'r afael â thlodi.

Byddwn yn...	Bydd llwyddiant yn edrych fel hyn...
Cynnwys ein Cynllun ATG yn ein Cynllun Corfforaethol	Cynllun cydgysylltiedig y mae'r holl randdeiliaid yn ei ddeall. Gall ein hadnoddau ffocysu ar ein hadferiad o Bandemig y Coronafeirws a thrawsnewid i wella.
Cryfhau ein llywodraethu a chynyddu'r pwyslais ar berfformiad	Cefnogaeth i'n cynlluniau. Bydd craffu a herio yn gwella atebolrwydd. Ffocws o'r newydd ar berfformiad. Bydd swyddogion ac Aelodau Etholedig yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau gwell canlyniadau.
Parhau i gyflawni ein hamcanion llesiant	Gwell canlyniadau i drigolion Merthyr Tudful. Cyflawnir hyn drwy ystyried economaidd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darparu gwasanaethau.
Gweithredu'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau a dyletswydd economaidd-gymdeithasol	Byddwn yn defnyddio'r cyfleoedd yn y Ddeddf newydd a'r dyletswyddau i wella ein rheolaeth perfformiad a'n gwelliant parhaus ymhellach.

Cynllunio Ariannol


Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (CATC) yn amlinellu dyraniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac yn amcanu gofynion cyllideb yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran y gyllideb, gyda'r fframwaith ar gyfer cynllunio a rheoli ei adnoddau dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf wedi wynebu heriau sylweddol. Rhagwelir y bydd cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth gofynnol ar gyfer y cyfnod 4 blynedd rhwng 2021/22 a 2024/25 rhwng £11.6 miliwn ac £13.7 miliwn. Mae'r graff isod yn dangos faint o ddiffygion a ragwelir yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf.

Er mwyn cyflawni'r newid hwn, bu'n ofynnol ailffocysu ac ad-drefnu'r hyn a wnawn yn sylweddol, ac mae'r broses hon wedi arwain at lunio Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor.

Er mwyn gallu cyflawni ein Cynllun Adfer a'r gwelliant sydd ei angen arnom, mae'n hanfodol cysoni ein harian yn unol â hynny. Yr egwyddorion y byddwn yn eu mabwysiadu yw:

- Archwilio a defnyddio cyllid allanol i sicrhau bod ein canlyniadau'n cael eu cyflawni i'r eithaf (roedd gweithio mewn partneriaeth yn bosibl);
- Ail-lunio ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn unol â'n blaenoriaethau a'n canlyniadau;
- Mabwysiadu modelau gweithredu newydd gan adeiladu ar fuddsoddiad a wnaed yn ystod pandemig y Coronafeirws i leihau ein gwariant;
- Adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i gwblhau (e.e. ymarfer gallu corfforaethol); adolygu modelau gweithredu i ffocysu ar ganlyniadau a manteisio ar gyfleoedd cynilo; ac
- Adeiladu ar y polisi presennol, gan newid yn ôl y gofyn, i ffocysu mwy yn fasnachol ar ein dull o ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau gwerth am arian.

I gysoni rheolaeth ariannol y Cyngor â'r blaenoriaethau corfforaethol a'r amcanion llesiant, byddwn yn parhau i ddatblygu'r broses o flaenoriaethu gwasanaethau gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i wasanaethau blaenoriaeth sydd wedi'u diffinio'n glir er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon a gwerth am arian y mae ar ein dinasyddion a'n cwsmeriaid eu hangen.



Bydd y gwaith i flaenoriaethu gwasanaethau yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod y Cyngor yn wybodus wrth ddarparu gwasanaethau fforddiadwy. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Setliad Refeniw a Chyfalaf blynyddol y Llywodraeth Leol dros dro.

Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i alinio Refeniw a Setliadau Chyfalaf â'n Hamcanion Llesiant yng nghyhoeddiadau ein CATC yn y dyfodol, a bydd y rhain ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn.

Ein Hymateb i'r Heriau Ariannol wrth Symud Ymlaen

Mae angen i ni barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy ddal i ffocysu ar y cwsmer a bod yn gyfrifol yn ariannol ym mhopeth a wnawn. Mae bod yn gyngor 'addas i'r diben' yn sail i'n holl waith ac yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion llesiant a'n blaenoriaethau corfforaethol ehangach.

Dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, byddwn yn ffocysu ar y meysydd canlynol i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau a wynebwn.

Byddwn yn...	Bydd llwyddiant yn edrych fel hyn...
Gweddnewid ein gwasanaethau a buddsoddi yn ein staff	Gweithlu medrus a brwdfrydig a all gefnogi adferiad, trawsnewid a gwella'r cyngor drwy gyflawni ein Cynllun ATG a gwella'r modd y cyflawnir ein cynllun corfforaethol (gan gynnwys ein hamcanion llesiant).
Cryfhau a datblygu ein gwaith partneriaeth ymhellach	Ni allwn wneud popeth yr ydym am ei wneud ar ein pen ein hunain. Rydym wedi gwneud partneriaethau cryf wrth ymateb i bandemig y coronafeirws ac rydym am adeiladu ar hyn. Bydd integreiddio ein cynlluniau a chydweithio i ddefnyddio ein hadnoddau yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant yn well ac arwain at well canlyniadau i'n trigolion.
Parhau i sicrhau buddsoddiad yn ein cymunedau.	Byddwn yn defnyddio cyllid allanol lle bo ar gael i gefnogi ein hamcanion llesiant a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ein Cynllun ATG.
Manteisio i'r eithaf ar ein setliadau ariannol llywodraeth leol	Byddwn yn alinio ein harian i gefnogi ein hamcanion a'n blaenoriaethau llesiant yn ein Cynllun ATG i wella canlyniadau i'n trigolion.

Cynllunio'r Gweithlu – Sefydliad Iach

Mae gan y Cyngor gyfoeth o sgiliau a phrofiad ar draws ei weithlu, sef ei adnodd mwyaf gwerthfawr. Mae ein gweithwyr yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau sydd, yn anad dim, yn diwallu anghenion ein preswylwyr. Mae hyn wedi dod yn arbennig o amlwg wrth ymateb i Bandemig y Coronafeirws.

Rydym yn sefydliad darbodus, sy'n golygu bod ein heriau'n cynnwys sicrhau bod ein holl adnoddau (gan gynnwys ein Staff) yn cael eu cefnogi'n briodol a'u bod yn ffocysu ar gyflawni ein blaenoriaethau. Eleni gwnaethom gynnal ymarfer capasiti a buddsoddi £705,000 i fynd i'r afael â meysydd risg critigol a nodwyd gan ein rheolyddion a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i adolygu hyn yn unol â'r heriau a'r newidiadau sy'n ein hwynebu.




Bydd ein cynllun ATG yn sicrhau ein bod yn cryfhau rhannau o fewn ein cynllun i gyflawni'n well ein canlyniadau

Rydym wedi gallu defnyddio data staff i'n helpu i ychwanegu gwytnwch at ein gwasanaethau a chefnogi ein staff. Rydym wedi dysgu llawer o wersi yn ystod y pandemig, y gellir defnyddio'r rhan fwyaf ohonynt wrth lunio ein cynllun Sefydliad Iach wrth symud ymlaen. Mae ein rhaglen Sefydliad Iach yn thema allweddol yn ein Cynllun ATG. Bydd yn ein helpu i ymateb i'r heriau y mae'r Cyngor a'n cymunedau yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf.

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth o'n harolwg diwylliant blynyddol wrth gynllunio ein rhaglen Sefydliad Iach. Ein nod yw sicrhau bod gennym weithlu **LLAWN CYMHELLIANT, ATEBOL AC YMGYSYLLTIEDIG SYDD Â'R SGILIAU A'R GALLU I GYFLAWNI NODAU'R SEFYDLIAD.** Yn dilyn hyn rydym yn adfer ein rhaglen ymgysylltu â staff (fforwm staff).

Rydym yn datblygu ffyrdd o gasglu a dadansoddi ein data staff. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall a chefnogi ein gweithlu a'n cynlluniau allweddol yn well, er

